# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 30 TACHWEDD 2016 AM 4.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd E T Kirchner (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J A Hale | T J Hennegan | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): Y V Jardine, A J Jones, D J Lewis a/ac M Thomas

### 33 DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

### 34 COFNODION.

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y cyfarfod gynhaliwyd ar 26 Hydref 2016 yn gofnod cywir.

### 35 PROSIECT BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU.

Adroddodd y Cadeirydd nad oedd y swyddog a gyflwynodd yr adroddiad ar gael i ddod i'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** gohirio'r eitem tan y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 25 Ionawr 2017.

### 36 AGWEDD CYSWLLT CWSMERIAID - ADBORTH AR YMWELIADAU SAFLE I'R GANOLFAN GYSWLLT. (LLAFAR)

Rhoddodd y pwyllgor adborth o'r ymweliad â'r Ganolfan Gyswllt, Canolfan Ddinesig. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn ymweliad gwerth chweil, ac roedd yr aelodau a fu yno wedi gallu gweld arferion gweithio ac amgylchedd gwaith staff y Ganolfan Gyswllt. Ymwelodd cynrychiolydd o'r DVLA â'r ganolfan hefyd.

Amlygwyd y canlynol gan y pwyllgor: -

- Roedd y tîm yn gweithredu â nifer bach o staff mewn amodau gweithio cyfyngedig iawn.

- Yr angen i ddarparu gwell ardal orffwys i staff;
- Yr angen i ddarparu system cylchdroi swyddi rheolaidd i staff a chyflwyno mwy o waith partneriaeth;
- Effaith colli traean o'r staff y llynedd ar forâl;
- Dylai hyfforddiant a datblygiad staff fod yn barhaus oherwydd natur y gwaith, ac roedd cyfleoedd i ddatblygu gyrfa'n brin iawn.
- Cyflwyno cymhellion staff/gwobrwyo staff;
- Posibilrwydd gosod drych dwyffordd i arsylwi a yw defnyddwyr yn defnyddio cyfarpar yn gywir;
- Mae'r gwasanaeth yn darparu iPads ychwanegol i gynorthwyo'r genhedlaeth goll o ddefnyddwyr TGCh;
- Nid oedd swyddogion sy'n ymweld â'r gymdogaeth yn cael eu cyflogi gan yr Is-adran Gyllid, ac roedd hyn yn effeithio ar y Ganolfan Gyswllt/cyhoedd oherwydd maint a chymhlethdod y ffurflenni;
- Dylai'r cyngor gyflwyno ffurflenni haws i'r cyhoedd eu deall.

**PENDERFYNWYD**: -

1) Nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid i ddiolch iddi am y gwasanaeth a'r wybodaeth a ddarparwyd yn ystod yr ymweliad;
3) Y dylid mynd ar ymweliad arall/darparu adroddiad arall ymhen chwe mis.

## 37 DIWEDDARIAD AR WEITHWYR ASIANTAETH. (LLAFAR)

Hysbyswyd y pwyllgor gan y Cadeirydd yr ysgrifennwyd at Aelodau Cabinet dros yr Amgylchedd a Chludiant a Thrawsnewidiad a Pherfformiad ynghylch barn y pwyllgor o ran gweithwyr asiantaeth, ond ni wnaed cynnydd pellach.

Trafododd y pwyllgor yr opsiynau sydd ar gael i symud materion yn eu blaen, gan gynnwys cymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a Lloegr ac a yw'r awdurdod yn cael gwerth am arian gyda'r contract cyfredol. Amlygwyd hefyd nifer uchel y gweithwyr asiantaeth yng Nghymru.

Nodwyd bod disgwyl i dendrau i ddarparu contract newydd i gyflenwi gweithwyr asiantaeth gael eu dosbarthu ar ddechrau'r flwyddyn newydd.

**PENDERFYNWYD: -**

1) Y byddai'r Cadeirydd/Is-gadeirydd yn trafod y mater ymhellach ag Aelodau'r Cabinet;
2) Gofyn i'r Uned Comisiynu Masnachol ddarparu adroddiad ychwanegol sy'n cymharu costau parhau â chontract y gweithwyr asiantaeth a chael model mewnol.

## 38 RHAGLEN WAITH 2016/2017.

Cyflwynodd y cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2016/2017.

Oherwydd nad oedd cynghorwyr ar gael, cynigiwyd canslo'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 21 Rhagfyr, ac os oedd angen, drefnu cyfarfod arbennig i ymdrin ag unrhyw faterion brys.

**PENDERFYNWYD:** -

1) Nodi cynnwys yr adroddiad.
2) Canslo'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 21 Rhagfyr 2016, ac os oes angen, drefnu cyfarfod arbennig i ymdrin ag unrhyw faterion brys.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.55 pm

**CADEIRYDD**